**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Ebrill 8fed, 2024 am 7.30y.h. yng Nghanolfan Deunant**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Tim Rosa, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans, Jaci Jones, Nesta Roberts a Dafydd Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:**

Hoffai longyfarch Dafydd Williams a Catrin ar enedigaeth eu mab, Wil.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Mawrth 11eg, 2024**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe lofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

*i) Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau*

a) Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud gwaith ar y lon yn Rhiw. Mae'n debygol mae gwaith dros dro yw hyn.

b) Gyrrwyd at Mabon ap Gwynfor i gwyno am Ysbyty Gwynedd, nid oes ateb wedi ei dderbyn yn ôl hyd yn hyn.

c) Gyrrwyd e-bost at y gwasanaeth tân, nid oes ateb wedi ei dderbyn eto. Am fynd yn ôl atyn nhw i ofyn pwy sydd yn gyfrifol am y gwaith chynnal a chadw ar y 'Fire hydrants'.

d) Mae'r archifdy wedi dod yn ôl atom yn dweud eu bod yn hapus i storio'r hen gofnodion, penderfynwyd disgwyl tan fis nesaf i ddewis pa rai fydd yn mynd yno.

*ii) Eglwys newydd*

Gyrrwyd y cynghorwr Dewi Evans at Aaron Burrows (yswiriant) i holi am y taliadau i Donald Insall ar Fawrth 24ain, ond ni dderbyniwyd ateb. Penderfynwyd y bydd angen mynd yn ôl ato i holi.

Siaradodd y cynghorwr Dewi Evans efo Darren Gallagher pan ddaeth i weld Eglwys Newydd ar Ebrill 3ydd, ac mae wedi rhoi copi o 'Schedule of Works' newydd. Roedd Darren yn sôn y byddai pethau'n ddrytach na'r amcan,

iii) Aelodaeth Unllais Cymru: Penderfynwyd ymaelodi unwaith eto felly angen gwneud y taliad yma.

**5) Gohebiaethau**

i) **Cyngor Dolbenmaen yn gofyn am gefnogaeth ynglŷn â chynllun heddlu ysgolion:** Penderfynwyd mynd yn ôl at gyngor Dolbenmaen i ddatgan ein cefnogaeth.

ii) **Hysbysiad Archwilio 2024:** Mi fydd yr archwiliad angen ei wneud dros yr wythnosau nesaf, cynigodd Wenda gysylltu efo clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy i roi cymorth ar hyn.

iii) **Portread rhad ac am ddim o'r brenin:** Penderfynwyd nad oedd y Cyngor eisiau'r portread.

iv) **Hyfforddiant i gynghorwyr dros y misoedd nesaf:** Gwybodaeth wedi ei rannu.

v) **E-bost gan YGC - Tîm Tacluso – Ardal Ni 22-26/04 yn ardal Aberdaron.**

**6) Tendrau torri gwair a chynnal llwybrau**

**Mynwent yr Eglwys Newydd:** Derbyniwyd pris o £2,100 gan Gerddi Gwell, penderfynwyd derbyn y pris ar yr amod fod asesiad risg a chopi o yswiriant y contractwr yn cael ei gyflwyno cyn dechrau ar y gwaith.

**Torri Llwybrau'r ardal:** Derbyniwyd pris o £900 gan Gruffydd Jones yn ogystal â chopi o'i yswiriant. Derbyniwyd y pris ar yr amod ei fod yn gofyn cyn gwneud toriad.

**7) Diweddariad y wefan a thudalen newydd Facebook:** Mae cofnodion am y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu rhoi i fyny ar y wefan. Roedd creu tudalen newydd Facebook wedi bod yn drafferthus gan fod tudalen yn bodoli eisoes, penderfynwyd creu un newydd o dan enw Tudalen Cyngor Cymuned Aberdaron.

**8)Cynllunio**

Dim ceisiadau wedi eu derbyn.

**9) Ariannol**

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| Ifan Hughes | £270 |
| (Christine I E Barnett, claddedigaeth a carreg bedd) | |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5 |
| Nesta Roberts (CCTV trwy S/O Chwefror) | £12.56 |
| Scottish Power (Trydan yr eglwys) | £433.56 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |

**10) Materion ffyrdd a llwybrau**

Cwynion wedi eu derbyn am barcio ym mhentref Aberdaron o flaen tafarn y Ship ac o flaen y becws. Penderfynwyd cysylltu â phriffyrdd cyngor Gwynedd a gofyn a allith rywun ddod i'r cyfarfod nesaf.

Mae gwrych yn tyfu i'r lon ym Mhencaerau, ychydig lawr o'r hen siop.

Rydym wedi derbyn cwyn am ffermwr yn gadael mwd ar y lon ar y tro am 'Groeslon Farm Isaf'.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Mai 13eg, 2024**

**yn Neuadd Rhoshirwaun.**